

Agenda

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC, Diwrnod 2 – Sesiwn Cyhoeddus

Dyddiad y Cyfarfod: 23 Medi 2021

Amser y cyfarfod: 9.00-12.50

Lleoliad: Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd

Microsoft Teams: Ymunwch ar eich cyfrifiadur neu ap symudol
[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)
Neu galwch i mewn (sain yn unig)
[+44 29 2105 5545,,657651915#](tel:+442921055545657651915)

Arsylwyr:

Amser	Eitem
9.00 (5 munud)	1. Agor y cyfarfod <ul style="list-style-type: none">• Croeso• Datganiadau o fuddiant• Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)
9.05 (5 munud)	2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)
9.10 (10 munud)	3. Diweddariad gan y Cadeirydd Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw Crynodeb: Y Cadeirydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd
9.20 (20 munud)	4. Adroddiad y Prif Weithredwr Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr Crynodeb: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol cyfredol Cyflwyniad yn unig

9.40
(10 munud)

5. Adroddiadau Diweddarau gan y Pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

- Adroddiad Blynyddol 2020/21

Cyfeirnod y papur: 21-09-B10

Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – amherthnasol

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau 16 Medi

Diweddariad llafar (dim papur)

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – amherthnasol

Crynodeb: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau diweddar y pwyllgorau

9.50
(20 munud)

6. Adroddiad Chwarter 1 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Noddwyr: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Cyflwynwyr: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol

Crynodeb: Craffu ar Adroddiad Chwarter 1

Cyfeirnod y papur: 21-09-B12

10.10
(20 munud)

7. Adroddiad Chwarter 1 Lles, Iechyd a Diogelwch

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: I'w gymeradwyo gan y Bwrdd

Cyfeirnod y papur: 21-09-B13

10.30
(15 munud)

Egwyl

10.45
(20 munud)

8. Prosiect Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Lyn Williams, Cynghorydd Arbenigol, Rheoli Pobl; Julia Allen, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol

Crynodeb: Prosiect Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI): diweddarau a thrafod blaenoriaethau

Cyfeirnod y papur: 21-09-B14

11.05
(75 munud)

9. Cyflawni ar y Môr a'r Arfordir a Chyflwyniad Lle

Noddwr: Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau; Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynydd: Rhian Jardine, Pennaeth Cynllunio Datblygu (DPAS) a Gwasanaethau Morol; Andrea Winterton, Rheolwr Gwasanaethau Morol; Pete Jordan, Rheolwr Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu; Mary Lewis, Rheolwr Mannau Cynaliadwy Tir a Môr

Crynodeb: Rhoi trosolwg o Gyflawni Amcanion Strategol y Cynllun Busnes o ran y Môr a'r Arfordir

Cyfeirnod y papur: 21-09-B15

Diwedd cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd

12.20
(30 munud)

10. Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus

12.50

Diwedd y cyfarfod

12.50

Cinio

Cofnodion heb eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus Pawb yn Bresennol dros Teams
Dyddiad y Cyfarfod:	14 Gorffennaf 2021
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:	Syr David Henshaw (Cadeirydd) Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd Karen Balmer Catherine Brown Julia Cherrett Geraint Davies Howard Davies Dr Elizabeth Haywood Zoë Henderson Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol (Eitemau 1-11)
Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (yr holl eitemau) Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol (Eitemau 6, 7) Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol (Eitemau 6, 7) Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (Eitem 6) Lyn Williams, Cynghorydd Polisi'r Gymraeg (Eitem 8) Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru (Eitem 9) Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu (Eitem 9) Mark Squire, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy (Eitem 9) Anjali Wainwright, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Risg (Eitem 10) Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru (Eitem 11)

Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru (Eitem 11)
Iwan Williams, Rheolwr Rhaglen Ynys Ynni (Eitem 11)
Dylan Williams, Rheolwr Gweithrediadau (Eitem 11)
Elsie Grace, Rheolwr, Datblygu Busnes (Eitemau 12-14)
Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir (Eitem 12)
David Liddy, Cynghorydd Arbenigol, Diogelwch Hamdden (Eitem 12)
Peter Gough, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd (Eitem 13)

Arsylwyr: Gareth Wardell
30 o aelodau'r cyhoedd

Datganiadau: Dim

Ymddiheuriadau: Dr Rosie Plummer – 1pm tan 3pm
Geraint Davies – sesiwn y bore (rhan)
Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol (Eitemau 12-14)

Ysgrifenyddiaeth: Natalie Williams
Jocelyn Bengier
Laura Rees

Eitem 1. Agor y cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod a chroesawu pawb. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 20 Mai

2. Cafodd cofnodion cyfarfod cyhoeddus mis Mai eu hadolygu a'u cytuno.

2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

3. Adolygwyd y cofnod gweithredu. Nodwyd bod y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu cyhoeddus a phreifat cyn y cyfarfod.

Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Croesawodd y Cadeirydd sefydlu'r Weinyddiaeth Newid Hinsawdd newydd. Roedd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd wedi cyfarfod â Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, a Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, i drafod blaenoriaethau ar gyfer agenda CNC.

Eitem 4: Adroddiad y Prif Weithredwr

5. Rhoddodd y Prif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf am Lywodraeth newydd Cymru. Roedd y cyfarfod rhagarweiniol gyda'r tîm gweinidogol newydd wedi bod yn galonogol iawn o ran eu hymgyssylltiad â'r agenda ac alinio blaenoriaethau. Cyfrannodd y ddau

Weinidog at Ddiwrnod #TîmCNC, ochr yn ochr ag aelodau'r Bwrdd, er mwyn dathlu gwaith staff CNC a'r gwaith gyda phartneriaid. Diolchwyd i'r Gweinidogion am eu presenoldeb.

6. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu newydd ar 15 Mehefin, a oedd yn cynnwys deg Amcan Llesiant a thua 100 o ymrwymiadau'r manifestio; roedd eraill wedi'u cynnwys o fewn portffolios arferol y Gweinidogion. Byddai ffocws Gweinidogion ar ymgorffori'r ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur ymhob maes, a thynnwyd sylw at y meysydd ffocws allweddol.
7. Roedd y Gweinidogion wedi ymrwymo i rannu drafft cynnar o'r Llythyr Cylch Gwaith, a fyddai'n cael ei fireinio wrth i wybodaeth arall ddod i'r amlwg, gan gynnwys mewnbwn o'r Adolygiad Sylfaenol. Byddai Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) Llywodraeth y DU yn ystod y cyfnod hwn, a fyddai'n arwain at fwy o eglurder o ran blaenoriaethau a chyllid.
8. Roedd y Dirprwy Weinidog wedi gwneud cyhoeddiad ynghylch cynyddu plannu coed a defnyddio coed o Gymru yng Nghymru, a oedd wedi deillio o waith at wraidd y mater yr oedd CNC wedi bod yn rhan ohono. Roedd gwaith tebyg gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn debygol o ddigwydd ar ynni adnewyddadwy, cadwraeth natur a bioamrywiaeth. Roedd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol wedi cytuno i gadeirio gweithgor bach ar annog buddsoddiad preifat mewn creu coetiroedd. Dylai'r meysydd gwaith hyn sy'n datblygu arwain at dull cydgyssylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru, CNC a'r trydydd sector.
9. Roedd y Cwnsler Cyffredinol wedi cyhoeddi blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf. Byddai CNC yn parhau i fod yn rhan o ddatblygiad y Bil Amaethyddiaeth newydd. Nodwyd y Bil Treftadaeth hefyd. Byddai hyn yn canolbwyntio ar adeiladau rhestredig a'r amgylchedd hanesyddol ac yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant. Amlygwyd hefyd bod y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn bwysig wrth ystyried gwaith CNC gydag eraill a byddai'n arbennig o berthnasol mewn prosiectau megis Skyline.
10. Holodd aelodau'r Bwrdd a oedd enghreifftiau rhyngwladol o arferion gorau yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y gwaith a oedd yn mynd rhagddo gyda chwaer sefydliadau ledled y DU i gynhyrchu papur ar y cyd ar gyfer y Cynadleddau Newid Hinsawdd (COP) er mwyn rhannu arferion gorau. Disgrifiwyd enghreifftiau o gysylltiadau â grwpiau rhyngwladol a rhannu dysgu ag eraill, a bydd y papur sy'n ymwneud ag ymgysylltiad a strategaeth ryngwladol yn cael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd.

CAM GWEITHREDU: Y Prif Weithredwr i rannu ag aelodau'r Bwrdd y papur sy'n ymwneud ag ymgysylltiad a strategaeth ryngwladol.

11. Cydnabuwyd pwysigrwydd y ffocws ar yr hinsawdd a lles, ond roedd aelodau'r Bwrdd yn pryderu y dylai mater natur a bioamrywiaeth gael eu hystyried yn gyfartal. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru, ac roedd rhai penderfyniadau cynnar, megis adolygu cynlluniau ffyrdd newydd, yn galonogol.
12. Trafodwyd anawsterau wrth gyflenwi coed ar gyfer y Goedwig Genedlaethol newydd. Rhoddwyd sicrwydd i aelodau'r Bwrdd y byddai contractwr CNC yn cyflenwi'r gofynion ailstocio ar gyfer CNC, ond Llywodraeth Cymru fyddai'n ystyried y cynllun ar gyfer y Goedwig Genedlaethol.

Eitem 5: Adroddiadau Diweddarau y Pwyllgorau

13. Ystyriwyd bod yr adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid (FC) ar 18 Mehefin wedi'i ddarllen. Tynnodd Cadeirydd y pwyllgor Cyllid sylw at y ffaith bod proses craffu wedi digwydd ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Byddai'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r Adolygiad Sylfaenol yn cael ei hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 16 Gorffennaf.
14. Darparodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC) ddiweddariad llafar ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf. Trafodwyd y Rhaglen Gweithredu Adfer ac Adolygu ar ôl Llifogydd, a oedd wedi tynnu sylw at heriau recriwtio parhaus a phrinder sgiliau. Nodwyd lefel y gor-raglennu yn y Rhaglen Gyfalaf, a thrafodwyd y risgiau, yn enwedig mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r cyflenwad adeiladu.
15. Nodwyd bod y system cyfnewid rhybuddion rhag llifogydd yn mynd yn dda ac roedd y Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) wedi cymeradwyo pedwar Cynllun Rheoli Llifogydd yn Naturiol. Bydd yr archwiliad mewnol ar y Rhaglen Adfer ar ôl Llifogydd yn dechrau ym mis Awst. Ystyriwyd cronfeydd dŵr a chanlyniad Adroddiad Toddbrook, ac roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn cyd-fynd â phwyslais CNC ar ddiogelwch y tu hwnt i gydymffurfiaeth. Sefydlwyd grŵp defnyddwyr arbenigol yng Nghymru ac adolygwyd yr Adroddiad Bob Dwy Flynedd drafft ar Ddiogelwch Cronfeydd Dŵr. Roedd ymarfer sganio'r gorwel cychwynnol wedi'i gynnal a byddai gwaith pellach ar y dull strategol yn cael ei wneud.
16. Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys diweddariad yr FRMC, yn enwedig mewn perthynas â phrinder capasiti a sgiliau. Cadarnhaodd Cadeirydd yr FRMC fod y Tîm Llifogydd wedi cynnig eu hunain i fod yn rhan o gynllun peilot cynllunio'r gweithlu. Cydnabu aelodau'r Bwrdd fod angen dadl genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfyngiadau ar fynd i'r afael â materion llifogydd.
17. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC) yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, a thynnodd sylw at y cynnydd o ran cynllunio'r gweithlu a'r datblygiadau mewn gwybodaeth reoli. Cafodd niferoedd presennol y gweithlu eu monitro a'u clymu i'r Strategaeth Pobl a'r Cynllun Gweithlu. Nodwyd mesurau rheoli adnoddau'r gweithlu. Darparwyd diweddariad ar waith ar y prosiect Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Nodwyd bod yr archwiliad mewnol Rheoli Perfformiad yn siomedig, ond roedd gwaith da yn mynd rhagddo gyda'r Tair Linell Amddiffyn i fynd i'r afael â hyn.
18. Cododd aelodau'r Bwrdd gwestiynau yn ymwneud â'r ddwy farwolaeth ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE) a'r dull o reoli risg, a sut yr oedd hyn yn cymharu â sefydliadau tebyg. Cadarnhaodd Cadeirydd PaRC fod ymchwiliadau'r heddlu yn parhau, ond nad oedd unrhyw faterion brys i CNC. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol y byddai'r Risg Lles, Iechyd a Diogelwch yn cael ei thrafod yng nghyfarfod nesaf PaRC ym mis Medi. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod cyswllt rheolaidd a dysgu a rennir yn digwydd gyda chwaer sefydliadau, ond cydnabu fod dysgu pellach bob amser yn fuddiol.

Eitem 6: Cynllun Busnes ac Adroddiad Diwedd Blwyddyn y Dangosfwrdd Perfformiad 2020/21

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol, Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol, Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

19. Cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o'r perfformiad ar ddiwedd 2020/21. Cynhaliwyd adolygiad yr haf diwethaf oherwydd y sefyllfa barhaus gyda'r pandemig, a gwnaed newidiadau i rai o'r dangosyddion perfformiad. Gwnaed yr adroddiad yn erbyn y

newidiadau hyn y cytunwyd arnynt. Adroddwyd bod statws Coch Oren Gwyrdd (RAG) yn ddau Goch, 12 Oren a 21 Gwyrdd.

20. Amlygwyd mesurau a oedd yn ymateb i flaenoriaethau strategol a disgrifiwyd y perfformiad fel y nodwyd yn y papur. Cydnabuwyd effaith y pandemig ac roedd wedi effeithio ar y perfformiad mewn rhai meysydd, a bu craffu ar y mesurau hynny a oedd yn Goch neu'n Oren. Nodwyd bod y mesur yn ymwneud ag 'Ymateb i ddigwyddiadau 'categori uchel' o fewn pedair awr' yn Oren.
21. Diolchodd y Prif Weithredwr i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o gyflawni yn erbyn y targedau hyn mewn blwyddyn anodd a heriol.
22. Cododd aelodau'r Bwrdd y mater o fonitro safleoedd gwarchodedig. Roedd hyn wedi'i raddio'n Goch ac roedd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig (PrAC) wedi craffu ar hynny. Canfuwyd bod cyfyngiadau Covid wedi effeithio ar gynnydd ar waith maes, ond byddai'n anodd cydnabod a oedd dylanwadau eraill, er y byddai'n rhan bwysig o drafodaethau yn yr Adolygiad Sylfaenol.
23. Trafodwyd amseroedd ymateb i ddigwyddiadau. Mynegodd aelodau'r Bwrdd siom am y sgôr Oren ond cydnabu ei fod yn rhannol gysylltiedig â heriau recriwtio. Cafwyd trafodaeth ar y targedau a sicrhau bod y rhain yn gyraeddadwy ac yn berthnasol drwy ddadansoddi'r sylfaen dystiolaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r diffiniad o ddigwyddiad categori uchel a'r amser effeithiol i wneud y gwahaniaeth mwyaf. Byddai manylion y mesur hwn yn destun trafodaeth gan y Bwrdd yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu trafodaeth i Ragolwg y Bwrdd ar y Cynllun Busnes a'r mesur Dangosfwrdd Perfformiad 'Amser ymateb i ddigwyddiadau categori uchel o fewn pedair awr'.

24. Tynnwyd sylw at y cyfleoedd dysgu a oedd wedi codi o ganlyniad i Covid ynghylch mwy o ddefnydd o dechnoleg, gweithio hyblyg a gweithio gydag eraill. Cadarnhawyd y byddai'r rhain yn bwydo i mewn i'r Rhaglen Adfywio. Cydnabuwyd pwysigrwydd gweithio gydag eraill.

PENDERFYNIAD: Cymeradwywyd Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2020/21 y Cynllun Busnes a'r Dangosfwrdd Perfformiad.

Eitem 7: Cynllun Busnes 2022-23

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol, Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol, Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

25. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem. Cadarnhawyd mai hwn fyddai'r Cynllun Busnes olaf o dan y Strategaeth Gorfforaethol bresennol, ac y byddai'n cyd-fynd â Llythyr Cylch Gwaith newydd disgwyliedig Llywodraeth Cymru. Roedd y papur yn nodi'r dysgu o'r broses bresennol, ynghyd â'r amserlen a'r dull gweithredu. Roedd y blaenoriaethau strategol wedi'u hadolygu a'u mireinio o bump i bedwar, a byddent yn canolbwyntio mwy ar Atebion Seiliedig ar Natur a Bioamrywiaeth
26. Roedd aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r ymgysylltiad cynnar ar y Cynllun Busnes. Amlygwyd bod y dull o drwyddedu, cydymffurfio rheoleiddiol a gorfodi yn feysydd pwysig i'w cynnwys yn y blaenoriaethau strategol. Dylid cynnwys canlyniadau trafodaethau blaenorol y Bwrdd ar y pwnc hwn. Byddai hefyd yn bwysig i'r Cynllun Busnes newydd fod

yn hyblyg er mwyn ymgorffori meysydd ffocws newydd gan Lywodraeth Cymru wrth i'r rhain ddatblygu.

27. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd arwain ar newid cymdeithasol mewn newid ymddygiad a rôl gwyddonwyr cymdeithasol a chyfathrebu yn y maes hwn. Pwysleisiwyd pwysigrwydd dysgu gan eraill, a gweithio gyda nhw. Cytunwyd y byddai hwn yn faes allweddol i'w ddatblygu ac y dylai fod yn destun trafodaeth fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu trafodaeth i'r Rhagolwg ar rôl gwyddor gymdeithasol a chyfathrebu wrth newid ymddygiad.

Eitem 8. Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

Cyflwynydd: Lyn Williams, Cynghorydd Polisi'r Gymraeg

28. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem a diolchodd i Gynghorydd Polisi'r Gymraeg am ei gwaith. Cyflwynwyd trosolwg o'r adroddiad. Cydnabuwyd heriau o ran cyflwyno ffyrdd dwyieithog o weithio i fodolau ar-lein a hybrid a nodwyd fod ffyrdd o hwyluso hyn yn cael eu trafod. Nodwyd fod cydymffurfiaeth yn dda ar y cyfan ond y byddai angen ystyried y dull strategol wrth symud ymlaen. Roedd PaRC wedi ystyried y mater o ddirywiad enwau lleoedd Cymru. Roedd gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â chynllun gweithredu gyda staff Gweithrediadau.
29. Roedd aelodau'r Bwrdd yn deall yr heriau o ran creu cynnig dwyieithog ac maent yn cefnogi'r gwaith parhaus yn y maes hwn. Byddai cyfeiriad strategol y Gymraeg yn cael ei drafod yn fanwl yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

PENDERFYNIAD: Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2020/21.

Eitem 9. Trafodaeth Strategol: Materion Ansawdd Dŵr Gorlifoedd Storm Cyfunol (CSO)

Cyflwynydd: Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru; Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Mark Squire, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy

30. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau drosolwg o gefndir y mater, gan dynnu sylw at drafodaethau yng nghyfarfodydd blaenorol y Bwrdd a rhaglen Panorama. Roedd CNC wedi cymryd rhan mewn uwchgynhadledd ar 18 Mehefin gydag Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Roedd blaenoriaethau wedi'u hasesu yn dilyn yr uwchgynhadledd hon ac wedi'u hamlinellu yn y papur.
31. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin gyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar y pwyntiau trafod allweddol. Roedd papur Cwestiynau Cyffredin wedi'i ddatblygu, a byddai'n cael ei ddosbarthu ar ôl y drafodaeth. Tynnwyd sylw at faterion yn ymwneud â'r seilwaith draenio Fictoraidd, a dangoswyd lefel y buddsoddiad sydd ei angen i wneud newid sylweddol i'r system ddraenio. Disgrifiwyd heriau'n ymwneud â rheoleiddio ac adroddwyd bod y ffocws wedi bod ar leoliadau pysgod cregyn ac ymdrochi sensitif. Nodwyd bod gan 2,500 o safleoedd fonitorau gollwng sy'n cofnodi digwyddiadau a'u hyd. Gellid defnyddio pwerau gorfodi, ond mae'r ffocws wedi bod ar gefnogi cwmnïau i sicrhau trwyddedau a chydymffurfiaeth.
32. Archwiliwyd atebion posibl i orlifoedd storm. Byddai angen craffu ar y dystiolaeth i gefnogi ymyriadau a byddai angen asesu lefelau adnoddau ar gyfer unrhyw newid. Cydnabuwyd bod cost dileu yn ormodol. Roedd addysg i leihau effaith rhwystrau ar y system yn ffactor

pwysig, yn enwedig yn sgil defnydd hamdden cynyddol o afonydd a diddordeb y cyhoedd yn iechyd ecolegol afonydd. Rhannwyd enghreifftiau o beirianeg a chost y rhain.

33. Tynnwyd sylw at yr heriau o reoleiddio a monitro afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), yn enwedig yr anawsterau o ran nodi ffynhonnell materion mewn dalgylch mawr megis Afon Wysg.
34. Rhannwyd y meysydd ffocws, a oedd yn cynnwys mynd i'r afael â gollyngiadau heb eu trwyddedu, casglu data, mwy o asesu'r effaith ar yr amgylchedd a rhaglen fonitro, mwy o asesu iechyd y cyhoedd a chyfathrebu.
35. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Cadarnhawyd bod solidau o ollyngiadau storm yn cael eu sgrinio a bod maint y sgrin yn dibynnu ar leoliad y gollyngiad. Caiff data gorlifoedd ei drosglwyddo i CNC i'w ystyried. Codwyd cwestiynau ynghylch camau gorfodi a thrwyddedu. Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd bod dull cyngor ac arweiniad yn cael ei ddefnyddio, gan weithio drwy raglen tuag at gydymffurfiaeth. Ystyriwyd pob achos yn ôl ei deilyngdod ac nid oedd unrhyw drwyddedau wedi'u gwrthod hyd yma gan fod y ffocws wedi bod ar sicrhau cydymffurfiaeth.
36. Cydnabuwyd bod dileu llygredd amaethyddol yn hollbwysig, ond nododd aelodau'r Bwrdd fod enw da rhai ffermwyr wedi cael ei niweidio ar y mater hwn. Cwestiynwyd yr angen am fwy o dystiolaeth o'r difrod a achoswyd gan garthffosiaeth a llygredd. Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd bod llygredd amaethyddol yn cael ei fonitro yn yr un modd â digwyddiadau llygredd eraill ac y byddai'r ymateb yr un fath beth bynnag fo'r ffynhonnell. Y nod fyddai monitro mewnbynau tymor hwy yn hytrach na'r model monitro ar hap presennol, yn enwedig mewn afonydd ACA.
37. Trafodwyd y materion yn ymwneud â monitro. Cydnabuwyd materion capasiti a phwysau ariannol a thynnwyd sylw at yr heriau o gyfuno blaenoriaethau newydd â'r llwyth gwaith presennol. Byddai'n bwysig gweithio gydag eraill a sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cael eu herio ar y mater hwn. Cododd aelodau'r Bwrdd yr angen i ystyried y llwyth bacteriol a'r risg i iechyd y cyhoedd. Byddai diagnosteg a blaenoriaethu yn allweddol i wella'r broses o nodi problemau lefel uchel a chyfraniad micro-blastigau, llwyth bacteriol a chynhyrchion fferyllol heb eu trin i faterion ansawdd dŵr.
38. Roedd aelodau'r Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod dull cadarn yn cael ei ystyried, yn enwedig o ystyried teimladau'r cyhoedd ar y mater hwn fel y nodwyd yn rhaglen Panorama. Argymhellwyd y defnydd strategol o orfodi a chymryd enghreifftiau o arferion da mewn arweinyddiaeth ar y mater hwn, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Pwysleisiwyd rôl cyhoeddusrwydd a chyfathrebu. Dyma fyddai'r cyfle i ddefnyddio'r momentwm i ddatblygu cynllun i wella ansawdd dŵr a chreu newid sylweddol. Gellid ystyried rôl CNC fel dylanwadwr i'w hymgorffori yn rolau a chyfrifoldebau CNC.
39. Cydnabuwyd cymhlethdod y materion, a chytunwyd y byddai'r tîm yn ystyried cynnwys y drafodaeth ac yn dychwelyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd gyda chynllun drafft, ond yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn y cyfarfod ym mis Medi.

CAM GWEITHREDU: Cynllun Gweithredu i'w ddatblygu ar sail canlyniad y drafodaeth strategol ar ansawdd dŵr. Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at hyn i'w adrodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi a phapur i'w ddarparu i Fwrdd mis Tachwedd.

Eitem 10. Cymeradwyo'r Strategaeth Risg

Cyflwynydd: Anjali Wainwright, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Risg

40. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem a thynnodd sylw at yr un newid sylweddol i'r Strategaeth Risg a oedd yn egluro'r berthynas rhwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a'r Pwyllgorau eraill.
41. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd y newid a chymeradwyo'r newidiadau i'r Strategaeth Risg.

PENDERFYNIAD: Cymeradwywyd y newidiadau i'r Strategaeth Risg.

Eitem 11. Cyflwyniad 'Lle'

Cyflwynydd: Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru; Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru; Iwan Williams, Rheolwr Rhaglen Ynys Ynni; Dylan Williams, Rheolwr Gweithrediadau

42. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yr eitem a chroesawodd Martin Cox fel cyd-Bennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin.
43. Rhoddodd Penaethiaid Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin gyflwyniad a roddodd drosolwg o Afon Conwy a'i hamgylchoedd o'r tarddiad i'r môr. Disgrifiwyd amrywiaeth y cynefin a'r defnydd ar gyfer amaethyddiaeth, ynni dŵr a hamdden. Cyflwynwyd y gwaith partneriaeth llwyddiannus gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ardal mawndir Migneint ar argaeau draenio mawn. Roedd y dull integredig a ddefnyddiwyd yng Nghwm Penmachno, gan weithio gyda phartneriaid a chymunedau, wedi cyflawni prosiect llwyddiannus. Esboniwyd y defnydd amrywiol o Goedwig Gwydir. Tynnwyd sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r pwysau ar y timau, a oedd yn cynnwys ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymosodiadau personol ar y cyfryngau cymdeithasol.
44. Disgrifiwyd taith afon Conwy i lawr y dyffryn yn Llanrwst a nodwyd bod 3% o Gymru yn draenio drwy'r dyffryn, gan greu her o ran rheoli'r perygl o lifogydd yn yr ardal hon. Roedd y gwaith ar y Migneint a Chwm Penmachno wedi profi y gallai prosiectau bach wneud gwahaniaeth. Byddai'r Cynllun Rheoli Traethlin a'r heriau sy'n gysylltiedig â hyn yn gofyn am waith gyda chymunedau. Darparwyd enghreifftiau o waith partneriaeth da, yn enwedig gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) a chyllid i helpu i gysylltu pobl â'r amgylchedd. Nodwyd cyfleoedd a heriau yn y dyfodol o ran adfer y broses naturiol, cysylltu pobl â'u hamgylchedd a gweithio ar raddfa tirwedd gyda phartneriaid.
45. Diolchodd aelodau'r Bwrdd i'r tîm am gyflwyniad llawn gwybodaeth. Nodwyd cysylltiadau â Chynllun Llesiant Gwynedd a'r angen i ddarparu cymuned iach. Tynnwyd sylw at gyfraniad ffermwyr at waith partneriaeth. Roedd aelodau'r Bwrdd yn poeni y byddai angen rhoi gwybod i'r gymuned am y mater parhaus o berygl llifogydd ac y byddai angen sgwrs wrth symud ymlaen. Awgrymwyd y gellid targedu'r ardaloedd lle caiff y rhan fwyaf o'r dŵr ei gynhyrchu, a disgrifiwyd prosiect peilot Partneriaeth Afon Hafren.

Eitem 12. Adolygiad Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) o ran Chwaraeon Moduro

Cyflwynwyr: David Liddy, Cynghorydd Arbenigol, Diogelwch Hamdden, Elsie Grace, Rheolwr, Datblygu Busnes, Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir

46. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem ac esboniodd fod yr Adolygiad wedi'i gynnal yng nghyd-destun Argyfyngau Hinsawdd a Natur a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Esboniwyd diben a rôl Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE), yn enwedig mewn perthynas â'i rôl ym maes hamdden yng Nghymru ochr yn ochr â'i phwysigrwydd wrth fynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur.

47. Cyflwynodd y Cynghorydd Arbenigol ar Ddiogelwch Hamdden ganfyddiadau'r Adolygiad. Bu ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ac, er bod rhai tensiynau'n cael eu cydnabod, yn enwedig o ran lefel y CO₂ a gynhyrchir, roedd yr Adolygiad wedi dod i'r casgliad y gallai chwaraeon moduro fod yn gydnaws â SMNR.
48. Trafododd aelodau'r Bwrdd fethodoleg yr Adolygiad a gofynnwyd a fyddai'n pasio prawf cyfreithiol ar gyfer cyflawni dyletswyddau CNC, a chytunwyd ar hyn. Gofynnwyd cwestiynau am gydbwysedd ymgysylltu â rhanddeiliaid ac a oedd materion y tu hwnt i CO₂, megis sŵn, bioddiogelwch a risg tân posibl wedi'u hystyried. Roedd yr Adolygiad wedi argymhell mynd ar drywydd mesurau i leihau allyriadau carbon. Byddai'n bwysig ystyried dulliau o leihau effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd a sicrhau bod yr amddiffyniadau cywir ar waith ar draws yr ystad goetir. Cytunwyd y byddai angen darn ehangach o waith er mwyn edrych ar y rhaglen garbon positif a rheoli effaith gweithgareddau hamdden ar yr amgylchedd. Cytunwyd y byddai ymarfer cwmpasu yn cael ei gynnal i ystyried y mater hwn y flwyddyn nesaf.
49. Cydnabuwyd y budd cymdeithasol ac economaidd y mae chwaraeon moduro yn ei gyflwyno i Gymru, a chydabuwyd pwysigrwydd gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau newid. Cytunodd aelodau'r Bwrdd y dylai raliio barhau o fewn yr ystad goetir, ond gofynnodd aelodau'r Bwrdd am i welliannau uchelgeisiol ac amlwg gael eu ceisio gydag ymrwymadau ar ben y cynlluniau presennol. Gofynnwyd am adroddiad cynnydd ymhen chwe mis.

CAM GWEITHREDU – Adroddiad cynnydd ar argymhellion y Bwrdd yn dilyn Adolygiad SMNR o ran Chwaraeon Moduro i'w ddarparu i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022.

PENDERFYNIAD: Caniatâd i raliio modur barhau yn ystad goetir Llywodraeth Cymru yn amodol ar drafodaethau parhaus gyda Motorsports UK a'u Clybiau Cysylltiedig i wella cynaliadwyedd a lleihau ôl troed carbon y gamp wrth weithredu yn yr ystad goetir.

Eitem 13. Cefndir Is-ddeddfau Pysgota Arfaethedig

Cyflwynydd: Peter Gough, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd

50. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem a fyddai'n gofyn am gefnogaeth i argymhellion y Tîm Gweithredol y dylid lansio ymgynghoriad ar yr is-ddeddfau pysgota newydd arfaethedig. Byddai'r ymgynghoriad yn cymryd tri mis a byddai cynnig yn seiliedig ar y canlyniad yn dychwelyd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.
51. Rhoddodd y Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd, drosolwg o'r prif bwyntiau a nodwyd yn y papur. Roedd eogiaid, a rhai poblogaethau brithyll môr, yn wynebu amrywiaeth o fygythiadau gan gynnwys newid i'r amgylchedd morol a heriau ansawdd dŵr, ac ystyriwyd bod stociau mewn perygl ledled Cymru. Roedd angen mynd ati ar unwaith i wella eu lefelau goroesiad. Rhannwyd y cynlluniau sy'n ymwneud â'r is-ddeddfau arfaethedig. Roedd rhanddeiliaid wedi bod yn rhan o drafodaethau ac roedd y mwyafrif yn ardal Gwy ac Wysg yn cymryd rhan ac yn gefnogol. Prin oedd yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ardal afon Hafren, ond roeddent yn gefnogol ar y cyfan.
52. Roedd aelodau'r Bwrdd yn falch o glywed am lefel yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a oedd unrhyw fesurau llymach y gellid eu rhoi ar waith ac y gellid eu gorfodi. Dywedwyd bod y rhan fwyaf o bysgotwyr yn poeni am y sefyllfa ac y byddent yn parhau i weithredu'n gyfrifol. Darparwyd sicrwydd y byddai'r ffocws ar y lleiafrif nad oeddent yn cydymffurfio â'r is-ddeddfau.

53. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cyfathrebu, yn enwedig o ran canlyniadau posibl yn y dyfodol. Cydnabuwyd bod heriau newydd yn codi drwy'r amser yn yr amgylchedd dŵr croyw ac y gellid cynnwys adolygiadau tymor canolig mewn is-ddeddfau fel y gellid ymateb i newidiadau'n gyflym.

54. Cynigiodd aelodau'r Bwrdd eu llongyfarchiadau i'r Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd, ar ei OBE a dymunwyd yn dda iddo wrth iddo ymddeol.

PENDERFYNIAD: Cymeradwywyd lansiad yr ymgynghoriad statudol ar reolaethau pysgota eogiaid a brithyllod y môr yn afonydd Wysg, Gwy a Hafren (yng Nghymru).

- Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben -

Eitem 14. Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

55. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd.

56. Roedd dau gwestiwn wedi dod i law a darparwyd ymateb iddynt ymlaen llaw.

57. Diolchodd Gareth Wardell i'r staff am gyflymder yr ymateb i'w gwestiwn cyn y cyfarfod ynglŷn â gwaith trin Dŵr Cymru yng Ngarnswllt. Nododd Mr Wardell fod 336 o arllwysiadau o garthffosiaeth heb ei drin wedi digwydd i Afon Llŵchwr yn ystod 2020 mewn cyfanswm o 309 diwrnod. Gan dderbyn y pwynt a wnaed gan yr Athro Ormerod fod ansawdd yr arllwysiadau o orlif carthffosiaeth cyfunol (CSO), yn ogystal â'u maint, yn ystyriaeth bwysig, gofynnodd Mr Wardell pa dystiolaeth oedd gan CNC ar hyn o bryd a allai ddangos i'r bobl a oedd yn byw o fewn dalgylch Afon Llŵchwr fod y drwydded a roddwyd i Ddŵr Cymru yn is na'r trothwy a oedd yn gofyn am weithredu ar unwaith ar gyfer gorfodi. Pwysleisiodd Mr Wardell lefel yr arllwysiadau sy'n ofynnol cyn erlyniad a thynnodd sylw at berthnasedd y drafodaeth gynharach ar Orlifoedd Storm Cyfunol. Byddai Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yn ymateb y tu allan i'r cyfarfod.

CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i ymateb i gwestiwn Gareth Wardell ar ollyngiadau CSO i Afon Llŵchwr y tu allan i'r cyfarfod.

- Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben -

Cyfarfodydd Bwrdd										
Rhif Cam G	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Dyddiad Cwblhau	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
9	Cyhoeddus	26/11/2020	6	20	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i drafod â Phennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru, ynghylch cynnal trafodaeth yn y dyfodol gyda'r Bwrdd am y terfyn pedair awr ar ymateb i ddiwyddiadau.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru	20/12/2020	Parhaus	Wedi'i ychwanegu at y rhestr o eitemau posibl ar gyfer trafodaethau strategol, cyflwyniadau Lle, sesiynau Tystiolaeth ac ymweliadau safle. Rydym yn awgrymu mai dyma'r eitem drafod strategol ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi a'n bod yn gohirio cwblhau'r thema ar drafodaethau strategol blaenorol i ddarparu ar gyfer yr eitem hon. Ar y Rhagolwg ar gyfer mis Tachwedd.
10	Cyhoeddus	26/11/2020	8	31	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru	CAM GWEITHREDU: Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru i ddarparu nodyn i'r Bwrdd ar y defnydd o ddatblygiadau arloesol/technolegau/ffyrdd o weithio newydd sydd wedi helpu'r tîm gweithrediadau yn ystod Covid.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru	20/12/2020	Parhaus	Gofynnwyd am ddiweddariad 02/09/2021
13	Cyhoeddus	20/01/2021	7	29	Clare Pillman, Prif Weithredwr	Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu ymweliad Bwrdd â Gwastadeddau Gwent yn y dyfodol.	Ysgrifenyddiaeth	31/11/2021		Yn ddibynnol ar Covid / dim cyfarfodydd wyneb yn wyneb tan ar ôl mis Mai. Wedi'i ychwanegu at y rhestr o eitemau posibl ar gyfer trafodaethau strategol, cyflwyniadau Lle, sesiynau Tystiolaeth ac ymweliadau safle. Rydym yn awgrymu mai dyma'r ymweliad safle ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd os caiff ei gynnal yng Nghaerdydd
24	Cyhoeddus	24/03/2021	4	10	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i holi aelodau am eu hargaeledd ar gyfer Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf i ganolbwyntio ar fyfyrion a heriau'r dyfodol ar ôl Covid.	Ysgrifenyddiaeth	31/10/2021	Parhaus	Rydym bellach yn gobeithio holi am argaeledd ar gyfer Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ar gyfer dyddiad ym mis Hydref - wedi'i ohirio tan y bydd aelodau newydd y Bwrdd yn eu swyddi.
68	Cyhoeddus	14/07/2021	4	10	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Y Prif Weithredwr i rannu ag aelodau'r Bwrdd y papur sy'n ymwneud ag ymgysylltiad a strategaeth ryngwladol.	Clare Pillman, Prif Weithredwr	17/08/2021	Cwblhawyd	E-bost wedi'i anfon 06/08/21
69	Cyhoeddus	14/07/2021	6	23	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu trafodaeth i Ragolwg y Bwrdd ar y Cynllun Busnes a'r mesur ar y Dangosfwrdd Perfformiad - 'Amser ymateb i ddiwyddiadau categori uchel o fewn pedair awr'.	Ysgrifenyddiaeth	23/07/2021	Cwblhawyd	

70	Cyhoeddus	14/07/2021	7	26	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu trafodaeth i'r Rhagolwg ar rôl gwyddor gymdeithasol a chyfathrebu wrth newid ymddygiad.	Ysgrifenyddiaeth	23/07/2021	Cwblhawyd	
71	Cyhoeddus	14/07/2021	9	38	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol yr EPP	CAM GWEITHREDU: Cynllun Gweithredu i'w ddatblygu yn sgil canlyniad y drafodaeth strategol ar ansawdd dŵr. Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at hyn i'w adrodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi a phapur i'w ddarparu i Fwrdd mis Tachwedd.	Sian Williams, Pennaeth Gogledd-orllewin Cymru / Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu	01/09/2021	Parhaus	Ar yr agenda ar gyfer mis Medi a'r Rhagolwg ar gyfer mis Tachwedd
72	Cyhoeddus	14/07/2021	12	48	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol yr EPP	CAM GWEITHREDU – Adroddiad cynnydd ar argymhellion y Bwrdd yn dilyn Adolygiad SMNR o Chwaraeon Moduro i'w ddarparu i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2022.	Dominic Driver, Y Pennaeth Stiwardiaeth Tir	04/03/2022	Cwblhawyd	Wedi'i ychwanegu at y Rhagolwg ar gyfer mis Mawrth 2022. Yn debygol o fod yn baragraff yn Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a gefnogir gan bapur briffio lefel uchel - i'w gadarnhau yn nes at yr amser
73	Cyhoeddus	14/07/2021	14	55	Gareth O'Shea Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i ymateb i gwestiwn Gareth Wardell ar arllwysiadau CSO i Afon Lluchwr y tu allan i'r cyfarfod.	Gareth O'Shea Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	17/08/2021	Cwblhawyd	Ymateb e-bost gan Kate Evans ar 19/07/2021

Papur y Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) 2020/21
Cyfeirnod y Papur:	21-09-B10
Noddir y Papur gan:	Catherine Brown, Cadeirydd ARAC
Cyflwynir y Papur gan:	Catherine Brown, Cadeirydd ARAC
Diben y Papur	I'w gymeradwyo
Argymhelliad	Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol ARAC 2020/21

Mater

1. Yn dilyn pob cyfarfod ARAC, mae Cadeirydd ARAC yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y materion y mae'r Pwyllgor wedi'u trafod.
2. Mae cylch gorchwyl ARAC, y cytunwyd arno gan y Bwrdd yn 2020, yn nodi "Bydd yr ARAC yn rhoi Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd yn crynhoi'r busnes y mae wedi'i gynnal yn ystod y flwyddyn a'r casgliadau y mae wedi'u dod iddynt".
3. Dyma wythfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor ac mae'n cwmpasu'r cylch cyfrifyddu ac archwilio ar gyfer 2020/21.

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1 - Y Pwyllgor Archwilio a Risg – Adroddiad Blynyddol 2020/21

Annex 1: Audit and Risk Assurance Committee - Annual Report 2020/21

Purpose

1. This is the eighth annual report of NRW's Audit and Risk Assurance Committee (ARAC) covering the accounting and auditing cycle for 2020/21 (April 2020 to March 2021).
2. Following each ARAC meeting, the Chair of ARAC provides an update to the Board summarising the issues that in the opinion of the ARAC Chair should be brought to the attention of the whole Board. The Annual Report provides a consolidated statement of the main messages included in the in-year updates and presents ARAC's overall opinion on NRW's framework of assurance and control for the Board and the Accounting Officer.
3. ARAC endeavours to comply with best practice as set out in HM Treasury's Audit and Risk Assurance Committee Handbook and currently operates under Terms of Reference (ToR) that were last updated and approved by the Board in May 2020. The Committee's Terms of Reference have been updated for 2021 and were approved at the June ARAC meeting. They will be presented to the September Board for approval. The ToR state that the primary role of the Committee is to advise the Board and the Accounting Officer on matters of risk, financial stewardship and accountability, the framework of internal controls and governance.
4. The ToR also state that "ARAC will provide the Board with an Annual Report summarising the business it has conducted during the year and the conclusions it has drawn therefrom". This report therefore consists of three sections:
 - a) Summary of business conducted in 2020/21.
 - b) Summary of conclusions drawn and recommendations for 2020/21.
 - c) Report on progress against recommendations from 2019/20.
5. The Board is invited to note and comment on the whole of the report and provide such guidance as it sees fit to the Executive and ARAC as to next steps.

Summary of business conducted in 2020/21

6. The Committee received reports and discussed recommendations on a wide range of issues relating to internal controls, risk management, governance, and internal and external audit.
7. In summary, ARAC has been concerned throughout the year by a lack of consistency of control and a weak understanding and implementation of key controls by management and remain of the view that the Board needs to be concerned. The Committee has also expressed concern about information flows within the business, i.e. when staff and front-line managers have raised concerns there is evidence to suggest that these were not adequately acknowledged and addressed.
8. However, the Committee also recognises that significant progress has been made this year across all areas of assurance and control as a result of the strong

work led by the Executive Team. Key pieces of work include the Baseline Review, which has sought to clarify NRW's core budget and activities, and the 3 Lines of Defence work, which has sought to identify and address the root causes behind systemic issues in NRW's assurance and control framework.

9. ARAC has welcomed the discussions at Board about how to prioritise risk and compliance controls across the business and the suggestion to introduce a quarterly report to Board and/or to review the existing suite of performance measures.
10. It is worth noting that the effects from the Covid-19 pandemic continue to be felt at the time of writing (June to September 2021) and NRW operations and capacity are still being affected. In line with Government guidance all staff continue to work from home where able to do so.

Internal Audit

11. The Committee received update reports on Internal Audit activity, together with copies of all completed audit reports. During the course of the Internal Audit year (1 July 2020 to 31 March 2021 – this year the internal audit year was truncated to align it with the financial year going forwards) these were:

Report Title	Opinion*
Grants	Limited
Welsh Purchasing Cards	Limited
Staff Performance Management	Limited
Follow-Up, Timber Sales Contracts	Some Progress
Follow-up, Conflicts of Interest	Some Progress
Cyber Security	Moderate
Information Asset Owners	Moderate
Budget Management	Moderate
Lone Working	Moderate
Waste Regulation and Enforcement	Moderate
Quality of Evidence Reports	Moderate
GPDR Compliance	Moderate
Serious Incident Reviews	Moderate
Internal Governance	Moderate
Risk Management	Moderate
Management of Colliery Spoil Tips	Moderate
Procurement under £25k	Substantial

IR35 Off Payroll, Working Process Review	Management Letter
Total	

*See Annex 2 for definitions of audit opinions. NRW adopted the model used by Government Internal Audit Agency, which is seen as best practice for public sector organisations.

12. For the second year in a row, the Annual Opinion for 2020/21 was limited overall assurance. Although the number of areas where significant control weaknesses were identified by audit had decreased when compared to the previous year, the audits have uncovered systemic issues throughout NRW's systems and procedures, and not enough progress had been made on previously identified issues.
13. Three audits received limited confidence judgements in 2020/21: Welsh Purchasing Card, Grants, and Staff Performance Management. The Welsh Purchasing Card and Staff Performance Management audits both found evidence of continuing cultural issues, with poor performance going unchallenged and a lack of compliance with the prescribed processes. The second line of defence was also found to be absent. The Grants audit highlighted that the grant programme remained significantly under-resourced and that implementation of the new structure had been slow. A common issue throughout the audit was the need to strengthen evidencing of decisions and audit trails for activities, which is a re-occurring theme for NRW.
2. Yn y maes morol, mae'r berchnogaeth wahanol, gydag un perchennog ar gyfer gwely'r môr (Ystad y Goron) ond dim "perchnogion môr" yn y ffordd y mae gennym berchnogion tir i weithio gyda nhw ar y tir, yn golygu bod ein holl waith yn gofyn am ddull cydweithredol o weithio mewn partneriaeth gyda nifer o ddefnyddwyr a phenderfynwyr gwahanol. Mae cymhlethdodau a chostau gweithio ar y môr, ac amgylchedd sydd ag adnoddau cyfyngedig ar ben hynny, hefyd yn golygu ei bod hi'n hollbwysig bod yn arloesol a datrys problemau wrth fynd i'r afael â heriau sy'n

ymwneud â rheoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy. Caiff y dull hwn ei egluro drwy gydol y papur.

Cefndir

3. Mae'r amgylchedd morol yn gyfrifol am 43% o diriogaeth Cymru, hyd at y ffin diriogaethol o 12 milltir forol (gweler Atodiad 1). Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd awdurdodaeth dros gynllunio, pysgodfeydd a chadwraeth natur yn rhanbarth môr mawr Cymru y tu hwnt i 12 milltir forol, ac mae gan CNC hefyd rai swyddogaethau rheoleiddio penodol yn y rhanbarth hwn.
4. Mae diben CNC a'n prif swyddogaethau statudol yr un mor berthnasol i CNC yn yr amgylchedd morol ag y maent ar y tir. Mae ystod eang swyddogaethau CNC mewn perthynas â'r amgylchedd morol yn rhychwantu, er enghraifft: cyngor, tystiolaeth, rheoleiddio, ymateb i ddigwyddiadau a rheolaeth uniongyrchol. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 2. Rydym yn gweithredu ac yn llywodraethu ein gwaith morol yn CNC drwy un Rhaglen Forol integredig, gan gynnwys ein rolau strategol amrywiol a gwaith y Gwasanaeth Gweithrediadau Morol.
5. Mae fframwaith polisi a deddfwriaethol unigryw yn llywodraethu'r gwaith o gynllunio a rheoli'r amgylchedd morol. Ceir eglurhad o'r berthynas rhwng cyfundrefnau cynllunio a rheoli morol, daearol a Chymru gyfan yn Atodiad 3.
6. Mae gweithgarwch dynol wedi effeithio ar yr amgylchedd morol dros ganrifoedd. Mae SoNaRR II (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol) yn cyflwyno darlun cymysg ar gyfer bywyd gwylt o amgylch ein harfordiroedd a'n moroedd, gydag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, llygredd a rhywogaethau anffordorol i gyd yn rhoi pwysau, ac ardaloedd arfordirol (lle mae 60% o boblogaeth Cymru yn byw neu'n gweithio) sy'n cael eu heffeithio gan gynnydd yn lefel y môr, erydu arfordirol a llifogydd. Er gwaethaf yr heriau presennol y mae hyn yn eu cyflwyno, mae moroedd Cymru yn parhau i fod yn amgylchedd amrywiol a dynamig iawn. Mae Adroddiad ONS 2021 yn nodi bod asedau cyfalaf naturiol morol y DU yn werth £211 biliwn. Yng Nghymru, mae adnoddau naturiol morol ac arfordirol yn darparu nifer o fanteision cynaliadwy i gymdeithas, megis bwyd iach, ynni adnewyddadwy, deunyddiau adeiladu, telathrebu is-fôr, adnodd twristiaeth a hamdden, iechyd meddwl a lles, dal a storio carbon, diogelu naturiol rhag llifogydd. Gall y manteision hyn helpu i fynd i'r afael â materion allweddol megis argyfyngau hinsawdd a natur a chefnogi lles.
7. Mae gan yr amgylchedd morol a rôl CNC o ran hwyluso rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol morol gyfraniad allweddol i'w wneud wrth gyflawni blaenoriaethau Cynllun Busnes CNC. Mae'r asesiad isod yn nodi'r meysydd cyflawni allweddol a materion a chyfluoedd allweddol, ac yn dangos y dull cydweithredol, arloesol a datrys problemau y mae CNC wedi bod yn ei ddefnyddio ymhob agwedd ar ein rhaglen forol ers yr adroddiad blaenorol i'r Bwrdd.

Asesiad: Cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Busnes o ran y môr

Ymateb i argyfwng yr hinsawdd

Ynni adnewyddadwy morol

8. Mae'r cyfuniad o swyddogaethau rheoleiddio a chynghori yn rhoi CNC ar flaen y gad o ran cefnogi datblygiad ynni adnewyddadwy morol (MRE) cynaliadwy yng Nghymru. Yn 2019, sefydlwyd Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr (OREP) CNC fel ymateb uniongyrchol i:
- Raddfa gynyddol datblygiad ynni adnewyddadwy morol a diddordeb gwleidyddol, cyhoeddus a pholisi cynyddol yng Nghymru, a
 - Chyfarfodydd â'r Prif Weinidog yn 2019 i archwilio rôl CNC o ran helpu i hwyluso datblygiad ynni adnewyddadwy morol cynaliadwy i gefnogi targedau lleihau carbon
9. Nod cyffredinol OREP yw lleihau risgiau amgylcheddol a chydsynio datblygiad ynni adnewyddadwy morol (MRE). Rydym hefyd yn gweithio'n ofalus i fynd i'r afael â'r gwrthdaro canfyddedig rhwng yr argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth (Gweler Blwch 1). Rydym wedi rhoi 15 o staff ar benodiad cyfnod penodol (FTA) ar waith o fewn cyngor Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP), Trwyddedu a Gweithrediadau i gyflawni'r rhaglen, gan greu dull cydweithredol ac integredig ar draws CNC o ymdrin â chyngor, tystiolaeth, polisi, canllawiau a rheoleiddio CNC sy'n cwmpasu pob sector MRE: ynni tonnau, ffrwd lanw, gwynt sefydlog ac ansefydlog ar y môr ac amrediad llanw. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi sicrhau:
- Gwell rheolaeth achos, effeithlonrwydd a darpariaeth cyngor cyn ymgeisio a chyngor statudol a buddsoddi'n sylweddol mewn arbenigedd hanfodol

Blwch 1: Ynni Adnewyddadwy ar y Môr: Mynd i'r afael â'r ddau argyfwng a chefnogi adferiad gwyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu 70% o'r trydan a ddefnyddir o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Mae lleihau allyriadau carbon a chynyddu cadernid i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd wedi ei nodi fel cam blaenoriaeth ar gyfer adferiad gwyrdd mewn ymateb i COVID. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru, drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a'i Chynllun Adfer Natur, wedi cydnabod yr angen am weithredu brys i gynyddu cadernid ein hecosystemau er mwyn gwrthdroi'r dirywiad mewn cynefinoedd a rhywogaethau. Felly, mae CNC yn ymateb i'r ddau nod o gefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy i sicrhau y gellir cyflawni uchelgeisiau carbon isel, gan sicrhau ar yr un pryd y caiff effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd eu hosgoi drwy gymhwyso prosesau a deddfwriaeth asesu amgylcheddol yn ofalus.

- Datblygu datganiadau sefyllfa allweddol a chanllawiau sy'n creu cysondeb a mwy o sicrwydd o ran dull gweithredu (Gweler Blwch 2 am enghraifft)
- Mynd i'r afael ag anghenion tystiolaeth hollbwysig, gan leihau ansicrwydd e.e. dulliau monitro ar gyfer pysgod ymfudol ac asesu effeithiau sŵn ar famaliaid morol
- Gwell ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol a mentrau strategol yng Nghymru a ledled y DU

Blwch 2: Rheolaeth addasol: dulliau newydd o reoli ansicrwydd

Fel rhan o'r OREP, rydym wedi datblygu dull newydd o gydsynio i brosiectau ynni morol gan ddefnyddio rheolaeth addasol pan fo ansicrwydd yn parhau ynghylch y gwir effeithiau ar rywogaethau morol symudol oherwydd yr angen i ddefnyddio data wedi'i fodelu gan fod y sector yn gymharol newydd. Dyma enghraifft o alluogi fel cynghorydd a rheoleiddiwr i sicrhau y gellir cydbwysu ein hymateb i fioamrywiaeth ac argyfyngau hinsawdd

10. Dim ond tan fis Mawrth 2023 y mae adnoddau ar gael ar gyfer y rhaglen hon, ond mae'r maes hwn yn peri risg sylweddol i CNC gan y bydd graddfa'r datblygiad yn cynyddu'n sylweddol i'r dyfodol tymor canolig gyda sectorau newydd yn datblygu megis gwynt ansefydlog, a'r ffocws o'r newydd ar fôr-lynnedd llanw a amlygwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Ar hyn o bryd, mae 15 o gynlluniau MRE mawr a chymhleth gyda CNC mewn gwahanol gyfnodau, gydag eraill yn yr arfaeth, ac rydym yn cynghori ar 5 proses gynllunio MRE bwysig ar lefel Cymru a'r DU. Gweler Atodiad 4. Mae llawer o gynlluniau yn y cyfnodau cyn ymgeisio, gyda'r pwysau mwyaf ar CNC eto i ddod.

Carbon Glas

11. Mae gan yr amgylchedd morol gyfraniad pwysig iawn arall i'w wneud o ran helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd drwy ddal a storio carbon. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Bwrdd yn 2019, gwnaethom gomisiynu ymchwil i fesur potensial carbon glas amgylchedd morol ac arfordirol Cymru (gweler y crynodeb yn Atodiad 5). Cafodd y gwaith sylw sylweddol yn y cyfryngau ac mae wedi bod yn effeithiol o ran codi proffil y manteision ehangach sylweddol a geir o'n moroedd.
12. Rydym wedi blaenoriaethu blaenraglen waith i ymgorffori ystyriaeth o garbon glas ym mhob agwedd ar ein cyngor, ac i ddatblygu ymhellach y dystiolaeth ar sut a ble y gallwn wella'r broses o ddal a storio carbon glas mewn ardaloedd morol ac arfordirol.

Atebion ac addasiadau seiliedig ar natur yn y parth arfordirol

13. Mae'r rhyngwyneb arfordirol yn faes lle mae nifer o gyfundrefnau cynllunio a rheoleiddio yn cwrdd, a lle mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu teimlo'n ddifrifol oherwydd cynnydd yn lefel y môr ac (a) colli cynefinoedd oherwydd gwasgfa arfordirol, a (b) mwy o berygl o lifogydd arfordirol. Mae cyfleoedd i ddatblygu atebion sy'n seiliedig ar natur ar yr arfordir sy'n lleihau colli cynefinoedd, erydu arfordirol a llifogydd, neu'n ymestyn oes yr amddiffynfeydd presennol. Mae codi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o opsiynau ar gyfer rheoli'r arfordir a gweithio'n rhagweithiol gyda chymunedau wrth gynllunio ar gyfer newid arfordirol yn hollbwysig.

14. Rydym wedi sefydlu Rhaglen Rheoli Arfordirol Integredig (ICMP) i ddod â ffrydiau gwaith gwahanol at ei gilydd yn CNC, gan gynnwys rheoli perygl llifogydd, bioamrywiaeth, cynllunio, rheoleiddio a mynediad, i fynd i'r afael â her benodol y newid yn yr hinsawdd ar yr arfordir. Mae rhaglen waith ICMP yn cyflawni ystod eang o gamau gweithredu, gan gynnwys, er enghraifft, dull cydgyssylltiedig o asesu canllawiau a mynd i'r afael â gwasgfa arfordirol, gan ystyried datblygiad polisi diweddar Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Ymateb i'r argyfwng ym myd natur

Cynllunio morol

15. Y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn ein gallu i reoli'r amgylchedd morol yn gynaliadwy yw cyflwyno cyfundrefn cynllunio morol strategol drwy gyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) Llywodraeth Cymru. Mae gweithredu'r Cynllun Morol yn cefnogi holl flaenoriaethau'r Cynllun Busnes ac yn cysylltu'n uniongyrchol â chyflawni nodau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a lles.
16. Mae'r polisiâu yn y cynllun yn ystyriaeth statudol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys CNC, wrth wneud penderfyniadau a darparu cyngor ac, yn benodol, maent yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer cyngor gwaith achos morol CNC a phenderfyniadau trwyddedau morol CNC. Mae gweithredu'r WNMP yn flaenoriaeth yn y Cynllun Busnes. Rydym wedi gwneud cynnydd gweithredu sylweddol yn ddiweddar e.e. wrth ddatblygu canllawiau gweithdrefnol trwyddedu morol, swyddi cynghori, hyfforddi staff a llawlyfr gwaith achos morol i gefnogi'r broses o gymhwyso egwyddorion cynghori a chynllunio polisi i gynghori gwaith achos morol.
17. Wrth edrych ymlaen, mae CNC bellach yn cymryd rôl arweiniol wrth ddarparu'r dystiolaeth i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllunio mwy rhagnodol yn ofodol, drwy nodi'r ystyriaethau amgylcheddol gofodol ar gyfer gwahanol sectorau. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu canllawiau i ddatblygwyr ar sut i weithredu polisi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i ddatblygu gwaith adfer a gwella amgylcheddol fel ei fod yn rhan o ddyluniad datblygu, yn unol â'r thema hon yn y Datganiad Ardal Morol.

Ardaloedd Morol Gwarchodedig

18. Wrth wraidd yr ymateb i'r argyfwng natur o safbwynt morol ac arfordirol mae rheoli a gwella cyflwr y rhwydwaith helaeth o ardaloedd morol gwarchodedig yng Nghymru yn effeithiol. (Gweler y map yn Atodiad 6 a Blwch 3). Mae hyn yn flaenoriaeth arall yn y Cynllun Busnes. Mae'r meysydd blaenoriaeth sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd yn cynnwys:

Blwch 3: Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) yng Nghymru – cyfoeth o fioamrywiaeth

Mae'r rhwydwaith MPA yng Nghymru'n cynnwys **139** o safleoedd sy'n cwmpasu **69%** o foroedd tiriogaethol Cymru - sy'n dangos y cyfoeth o fioamrywiaeth ym moroedd Cymru. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys, er enghraifft:

- Un o ddim ond dwy ACA a ddynodwyd ar gyfer dolffiniaid trwyn potel yn y DU, gan gynnwys y boblogaeth fwyaf o ddolffiniaid trwyn potel yn y DU
- Terfyn gogleddol tafolen y traeth, ACA Pwynt Abermenai i Aberffraw, sy'n cynnwys 30-50 o blanhigion, o gyfanswm o lai na 650 yn y DU i gyd.
- Mae AGA Skomer, Skokholm a'r Moroedd oddi ar Sir Benfro yn cefnogi 57% o boblogaeth fyd-eang aderyn drycin Manaw, gyda mwy yn cael eu cefnogi mewn safleoedd eraill ledled Cymru.

- Darparu cyngor a thystiolaeth i gefnogi prosiect Llywodraeth Cymru i gwblhau'r rhwydwaith ardaloedd morol gwarchoddedig (MPA) drwy ddynodi Parthau Cadwraeth Morol (gweler Blwch 4). Mae hyn bellach wedi cyrraedd cyfnod ehangach o ymgysylltu â'r cyhoedd, felly rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltiad a dealltwriaeth rhanddeiliaid.
- Cyflawni camau gweithredu yn erbyn Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith MPA Cymru
- Cyflawni Prosiect Gwella Cyflwr MPA CNC
- Datblygu dull newydd o adrodd ar gyflwr holl nodweddion a safleoedd MPA.

Blwch 4: Rhwydwaith ecolegol gydlynol o MPA

Mae'r rhwydwaith MPA yng Nghymru yn cynnwys sawl math o ddynodiad sydd, gyda'i gilydd, wedi'u dylunio i gyd-fynd â chanllawiau Comisiwn OSPAR ar gydlynol ecolegol. Crëir cydlynol ecolegol drwy gymhwysu ystod o feini prawf, er enghraifft: bod 10% o bob cynefin ar raddfa fras yn cael ei ddiogelu o fewn y gyfres MPA, a bod nodweddion o bwysigrwydd cadwraeth yn cael eu hailadrodd mewn o leiaf dri MPA.

19. Mae prosiect adrodd ar gyflwr MPA yn dilyn cyhoeddiad 2018, cyfres lawn o adroddiadau asesu cyflwr *dangosol* nodwedd MPA. Canfu'r rhain fod 46% o nodweddion MPA mewn cyflwr ffafriol a bod 45% yn anffafriol, gyda graddau amrywiol o hyder (gweler Atodiad 7 am ragor o fanylion am y dull arloesol a ddefnyddiwyd a'r canlyniadau). Bydd y dull adrodd ar gyflwr newydd yn cael ei gwblhau eleni; yna, rydym yn bwriadu defnyddio'r dull hwn i gefnogi adolygiad llawn o gyngor amcanion cadwraeth CNC ar gyfer MPA er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r cyngor a'r asesiadau gorau i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar weithgareddau mewn MPA ac yn agos atynt. Mae'r gwaith pellach hwn hefyd yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg o gyngor aneglur, cyngor anghyson neu, yn absenoldeb amcanion cadwraeth mwy penodol, cyngor rhagofalus diangen. Bydd hon yn flaenoriaeth yn y flaenraglen forol.
20. Mae'r twf parhaus mewn datblygiad ar yr arfordir a'r môr yn golygu bod cyfran sylweddol o gapasiti cyngori ar le wedi'i neilltuo ar gyfer cyngor gwaith achos adweithiol, gyda chapasiti mwy cyfyngedig ar gyfer prosiectau gwella rheolaeth MPA rhagweithiol. Rydym yn dibynnu ar grantiau a rhaglenni blynyddol sy'n llesteirio'r gallu i ddatblygu prosiectau aml-flwyddyn a chynllunio ar gyfer y tymor hwy, gyda'r ddau ohonynt yn hanfodol yn yr amgylchedd morol lle mae'n cymryd amser i weld newid, lle mae ymyriadau'n ddrud a lle mae prosiectau'n gofyn am waith cyflawni gan nifer o wahanol bartneriaid sy'n gofyn am lawer o amser.

Adfer a chadernid

21. Mae angen gweithredu ar draws moroedd ac arfordiroedd i adfer a gwella cadernid ecosystemau er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng ym myd natur. Adlewyrchir hyn yn ein Cynllun Busnes. Un ffocws blaenoriaeth yw parhau i reoli pwysau i wella cyflwr y rhwydwaith MPA fel dull allweddol o adeiladu cadernid cyffredinol ecosystemau morol.
22. Mae gwaith adfer gweithredol yn yr ardal forol yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar ac mae'n cyflwyno heriau ymarferol sylweddol, yn enwedig o ran ymgysylltu â'r gymuned leol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni cynlluniau'n effeithiol. Serch hynny,

mae ffocws cynyddol ar adfer gweithredol yn fyd-eang, gan gynnwys ymrwymiad diweddar o fewn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer rhaglen wedi'i thargedu i adfer cynefinoedd morfa heli a morwellt (hefyd storffeydd carbon glas allweddol). Mae CNC eisoes yn arwain ar brosiect a ariennir gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop sy'n adfer cynefin wystrys brodorol yn Aberdaugleddau gyda phwyslais ar ddysgu sut i gynyddu prosiectau o'r fath. Mae Natur am Byth yn cynnwys elfen forol uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar adfer morwellt, wystrys, môr-wyntyll binc a'r cimwch coch. Rydym hefyd wedi cyhoeddi mapiau cyfle sy'n nodi ardaloedd posibl ar gyfer adfer amrywiaeth o gynefinoedd morol ac arfordirol. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi cytuno i ddatblygu blaenraglen waith integredig wedi'i blaenoriaethu ar gyfer adfer gweithredol sy'n adlewyrchu'r goblygiadau ymarferol, tystiolaeth, cyngor a rheoliadol ehangach i CNC yn y maes datblygu hwn.

Cysylltiadau rhwng y tir a'r môr

23. Mae'r materion diweddar mewn perthynas â chyflwr afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Cymru a gweithredu gorlifoedd stormydd hefyd yn amlygu'r angen i ystyried effeithiau dalgylchoedd yn eu cyfanrwydd a mynd i'r afael â materion yn gyfannol ar draws y tir a'r môr, o ran rheoli'r ffynhonnell a deall yr effaith. Mae pob dalgylch yn llifo i lawr yr afon i'r môr ac yn y fan honno ansawdd dŵr yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar gyflwr nodweddion MPA.

Datblygu a defnyddio ein tystiolaeth gyda phartneriaid i ddadlau dros reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a sicrhau bod hynny'n digwydd

Y Datganiad Ardal Morol

24. Mae'r datganiad ardal morol yn gyfle allweddol i CNC ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn cyflawni blaenoriaethau allweddol ar gyfer SMNR yn yr ardal forol. Y tair thema yn y Datganiad Ardal Morol, sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn yn ein rhaglen forol, yw:
- Adeiladu cadernid ecosystemau morol
 - Cefnogi gweithredu cynllunio morol, gan gynnwys polisiau ynni adnewyddadwy
 - Atebion ac addasiadau seiliedig ar natur yn y parth arfordirol
25. Ym mis Ionawr, cynhaliwyd digwyddiad cydweithredol ar-lein llwyddiannus iawn i ddatblygu gwaith gyda phartneriaid ar gyflawni'r datganiad ardal morol. Mae'r diffyg adnoddau a chyfleoedd i ymgysylltu sy'n gysylltiedig â Covid, a llai o allu i roi grantiau, wedi effeithio ar gyflymder a chyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithredu. Serch hynny, rydym yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid ar amryw o flaenoriaethau datganiadau ardal, er enghraifft, wrth ddatblygu Rhaglen Gwella Cyflwr MPA. Gwnaethom gefnogi amryw o brosiectau partneriaeth llwyddiannus drwy ein prosesau grantiau yn 2020/21, er enghraifft, prosiect 'Cymunedau Arfordirol yn Ymaddasu Ynghyd' a gyflwynwyd gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro.

Rhaglen Monitro Morol

26. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn deall cyflwr ein hamgylchedd morol ac arfordirol os ydym am wneud penderfyniadau cadarn ynghylch rheoli. Mae rhaglen monitro morol integredig CNC yn cyflawni'n bennaf ar fonitro'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ond hefyd ar y Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol a Strategaeth Forol y DU.
27. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cyrff cadwraeth natur y wlad, JNCC a phartneriaid eraill yn y DU wedi adolygu opsiynau monitro blaenoriaeth sy'n seiliedig ar risg ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau cynefinoedd a rhywogaethau morol y DU. Mae achos busnes wedi'i ddatblygu i gefnogi'r holl opsiynau monitro a ffeirir a'i gyflwyno i DEFRA. Mae penderfyniad ar yr opsiynau yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad nesaf o wariant. Mae'r opsiwn a ffeirir yng Nghymru sef monitro benthig ar y glannau wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru ac mae'r gost ychydig dros £3 miliwn (gan gynnwys staff ac adnoddau presennol). Heb gyfrif costau staffio, byddai'n dod i tua £2 filiwn.
28. Yn absenoldeb penderfyniad gan DEFRA neu gytundeb i fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn, mae'r adnoddau ar gyfer monitro morol wedi gostwng dros y 9 mlynedd diwethaf. Er mwyn darparu rhaglen fonitro MPA ddigonol, byddai angen i'r gofynion o ran adnoddau ddychwelyd i lefelau 2012/13, a byddai angen rhoi llinell sylfaen i staff a benodir am gyfnod penodol. Byddai hyn yn galluogi'r rhaglen monitro morol nid yn unig i fodloni gofynion adrodd yn fwy digonol, ond hefyd i roi cymorth i'n hanghenion cynghori allweddol megis ynni adnewyddadwy morol, a byddai'n llywio rheolaeth MPA yn fwy effeithiol.

Rhaglen dystiolaeth forol

29. Yr ardal forol oedd bod yn un o'r swyddogaethau cyntaf i ddatblygu rhaglen dystiolaeth swyddogaethol, fel y bwriadwyd drwy greu'r model darparu tystiolaeth newydd fel rhan o ddyluniad y sefydliad. Mae'r rhaglen bellach yn ei thrydedd flwyddyn, ac rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar dystiolaeth i gefnogi cyngor ar ynni adnewyddadwy morol, adfer a chadernid a rheoli'r arfordir ac ardaloedd morol gwarchoddedig. Cyhoeddwyd 25 o adroddiadau tystiolaeth forol yn 2020 a disgwylir i 18 gael eu cyhoeddi yn 2021, gan gwmpasu pynciau yn amrywio o gynhyrchu morloi llwyd bychain i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar amgylchedd morol Cymru.
30. Drwy brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru, rydym hefyd wedi darparu 60 o asesiadau unigol i Lywodraeth Cymru o wahanol ryngweithiadau offer pysgota â nodweddion safle gwarchoddedig, gyda 30 yn fwy i ddod eleni; bydd pob un ohonynt yn llywio'r gwaith o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy.
31. Rydym hefyd yn hyrwyddo'r anghenion tystiolaeth i'r byd academiaidd a chyrrff cyflawni allanol eraill. Un mater allweddol yw'r cylch cyllideb blynyddol sy'n atal prosiectau tystiolaeth tymor hwy angenrheidiol.

Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol sy'n gwasanaethu cymunedau Cymru

Fframwaith Cymhwysedd Technegol

32. Yn ddiweddar, rydym wedi datblygu Fframwaith Cymhwysedd Technegol a rennir ar gyfer staff morol yn yr adran Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP) a Gweithrediadau sy'n cael ei weithredu fel rhan o'r broses cynllunio datblygu perfformiad ar gyfer staff eleni. Rydym eisoes yn gweld y manteision o ran buddsoddi amser ac ystyriaeth i ddatblygu staff a'u cymhwyseddau a nodi a mynd i'r afael ag anghenion datblygu cyffredin. Mae'r dull hwn yn cael ei rannu ar gyfer datblygu fframweithiau cymhwysedd pellach ar draws CNC.

Rheoli gweithgareddau lleol yn uniongyrchol

33. Mae gan CNC rai cyfrifoldebau rheoli gweithgarwch uniongyrchol unigryw, gan gynnwys rheoli pysgodfeydd cocos Cilfach Tywyn ac Aber Afon Dyfrdwy a swyddogaeth Awdurdod Harbwr Gwarchodaeth Afon Dyfrdwy (awdurdod gwarchod, harbwr a goleudai lleol). Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r swyddogaethau hyn yn ddiweddar, er mwyn gwella ein gwasanaeth, drwy adolygu a diweddarau'r cynlluniau rheoli ar gyfer pysgodfeydd cocos ac, er bod Gorchymyn Adolygu Harbwr Dyfrdwy yn parhau i fod wedi'i atal, rydym wedi datblygu ein gallu i gymryd camau gorfodi drwy ddulliau eraill. Mae rheolaeth uniongyrchol hefyd yn cynnwys dyraniad sylweddol o amser gweithredol ar gyfer parodrwydd ar gyfer digwyddiadau morol ac ymateb i ddigwyddiadau.

Ymateb i'r pandemig Covid-19 a'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, gan gymryd cyfleoedd i gael adferiad gwyrdd a glas

Adferiad glas

34. Mae'n amlwg bod Covid ac ymadael â'r UE wedi effeithio'n anghymesur ar gymunedau arfordirol yng Nghymru, o ystyried eu dibyniaeth ar sectorau allweddol megis twristiaeth a physgodfeydd. Mae llawer o'r cymunedau hyn hefyd yn wynebu effeithiau tymor hwy newid arfordirol sydd wedi'i ysgogi gan yr hinsawdd. Serch hynny, roedd cynigion a gyflwynwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd yn ystod 2020 yn cynnwys dim ond 11 o brosiectau morol mewn cyfanswm o 170, gan adlewyrchu'r capasiti a'r ymwybyddiaeth gyfyngedig o rai o'r cyfleoedd a gyflwynir gan ein moroedd.

35. Rydym wedi gweithio mewn ffordd gydweithredol drwy Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (grŵp rhanddeiliaid strategol arweiniol Llywodraeth Cymru) i ddatblygu cynnig 'Adferiad Glas' ar y cyd. Mae'r cynnig yn tynnu sylw at y cyfleoedd penodol a gyflwynir gan ein moroedd – o ran ynni glân, Carbon Glas, bwyd môr iach, moroedd cadarn – a'r angen i fuddsoddi'n well mewn fframweithiau sy'n bodoli eisoes (megis y rhwydwaith MPA a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru) i wireddu'r manteision hyn. Mae hyn wedi'i baru â chamau galluogi sy'n canolbwyntio ar feithrin gallu mewn cymunedau lleol i gymryd rhan mewn gwaith cynllunio ar gyfer eu hamgylcheddau morol lleol a'u rheoli.

Ymadael â'r UE

36. Mae ymateb i ymadael â'r UE yn broses hirdymor. Pysgodfeydd yw'r mater morol mwyaf amlwg, ac rydym wedi cefnogi a chynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu Cyd-ddatganid Pysgodfeydd y DU a byddwn yn parhau i gynghori ar ddatblygu rheoleiddio a deddfwriaeth pysgodfeydd Cymru. Yn ogystal â physgodfeydd, mae amrywiaeth eang o weithgareddau eraill sydd â goblygiadau i'r môr ar ôl ymadael â'r UE, gan gynnwys, er enghraifft, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, lle mae gwaith manwl iawn llwyddiannus ar yr arfordir yn ddiweddar wedi tynnu sylw at amrywiaeth o faterion rheoli cynefinoedd arfordirol ac ansawdd dŵr i lawr yr afon y dylid ceisio eu hintegreiddio i'r cynllun.

Dull

37. Mae'r ddarpariaeth uchod yn cael ei dwyn ynghyd mewn un rhaglen forol integredig ar gyfer CNC ar draws ein darpariaeth gynghorol, reoleiddiol, tystiolaeth a gweithredol. Ategir hyn gan fframwaith llywodraethu a chydweithio agos rhwng timau, arweinwyr tîm a rheolwyr lluosog. Ystyriir bod y dull hwn yn arfer da yn CNC.

Casgliad ac argymhelliad

38. Mae'r uchod yn nodi ein meysydd cyflawni blaenoriaeth allweddol ar draws cylch gwaith morol ac arfordirol eang CNC, yn tynnu sylw at feysydd cynnydd allweddol, yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Busnes CNC ac yn dangos amryw o ddulliau arloesol a chydweithredol o ymdrin â'r her o reoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy.

39. Mae'r amgylchedd morol o dan bwysau mawr yn fyd-eang ac yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu llawer o'r manteision a'r atebion i'r heriau y mae ein cymdeithas yn eu hwynebu. Mae angen i ni weld yr amgylchedd morol yn rhan *annatod* o'n hymateb i'r ddau argyfwng *ynghyd â'r* holl waith rydym yn ceisio ei wneud ar dir Cymru a chyda chymunedau Cymru, yn hytrach nag yn ychwanegol ato.

Argymhellion

40. Gofynnir i'r Bwrdd:

- a. Nodi'r pwysau a'r disgwyliadau ar yr amgylchedd morol ac arfordirol wrth ymateb i'r ddau argyfwng, a'r cysylltedd rhwng tir a môr wrth greu pwysau y mae gennym gyfrifoldeb cyffredin i fynd i'r afael ag ef
- b. Rhoi cyngor ar faterion a chyfleoedd morol ac arfordirol allweddol yng nghydestun blaenoriaethau corfforaethol CNC
- c. Rhoi cyngor ar feysydd pellach ar gyfer cydweithredu strategol a chyfannol ar draws tir a môr
- d. Rhoi cymorth i godi materion allweddol a hyrwyddo cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru
- e. Cymeradwyo'r angen i gynnal, datblygu ac ymgorffori rhaglenni allweddol gan gynnwys y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr, Adferiad, Carbon

Glas a Rheolaeth MPA gan gynnwys effeithiau ansawdd dŵr gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, faetholion mewn afonydd.

Risgiau Allweddol

41. Mae'r risgiau allweddol o ran cyflawni rhaglen forol â blaenoriaeth CNC i gefnogi blaenoriaethau Cynllun Busnes CNC yn cynnwys:

- Risgiau gweithredol, amgylcheddol ac enw da sydd ynghlwm wrth ddibynnu ar gapasiti penodiadau tymor penodol byrdymor (30% o'r capasiti presennol) i gyflawni gwaith rhaglen forol â blaenoriaeth sy'n llesteirio cadw staff, creu aneffeithlonrwydd, colli sgiliau a phrofiad allweddol a diffyg diogelwch wrth gyflawni, sy'n golygu bod CNC yn methu â chyflawni rhai o'r blaenoriaethau allweddol megis cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy morol cynaliadwy a rheolaeth MPA
- Risg weithredol, enw da ac amgylcheddol sydd ynghlwm wrth golli'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr, a risg ariannol tymor hwy oherwydd risg gynyddol o adolygiad barnwrol o'n penderfyniadau os bydd capasiti'r rhaglen yn dod i ben
- Risg weithredol sydd ynghlwm wrth raglen monitro morol annigonol nad yw'n cefnogi anghenion adrodd a chynghori, oherwydd anallu i sicrhau adnoddau sylfaenol digonol hirdymor
- Difrod i enw da a dargyfeirio amser staff os bydd ymateb anffafriol gan randdeiliaid i gynigion newydd am Barth Cadwraeth Morol (MCZ) a / neu waith craffu pellach ar reolaeth MPA gan y Cynulliad.

Goblygiadau Ariannol

42. Ar draws y meysydd gwaith blaenoriaeth, mae llawer o bwysau newydd a chynyddol ar adnoddau. Caiff y rhain eu bwydo i gylchoedd cynllunio corfforaethol a chyllideb CNC, ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill, ac maent yn cael eu mynegi yn yr ymarfer sylfaenol presennol. Yn gyffredinol, nid oes digon o adnoddau i gyflawni'r rhaglen waith â blaenoriaeth a symud o waith adweithiol i waith rhagweithiol mewn rhai meysydd.

43. Mae'r materion ariannol allweddol yn cynnwys:

- Yr angen i roi adnoddau i'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr yn y tymor hwy, a blaenoriaethau adnoddau eraill sy'n dod i'r amlwg megis yr angen i adnewyddu cyngor amcan cadwraeth ar gyfer MPA a sefydlu rhaglen monitro morol gynaliadwy
- Y ddibyniaeth o **30%** ar gapasiti penodiadau tymor penodol tymor byr i gyflawni gwaith rhaglen forol â blaenoriaeth

Mynegai Atodiadau


- Atodiad Rhanbarth Glannau Cymru a Rhanbarth Môr Mawr Cymru

- Atodiad 2 Cylch Gwaith Morol CNC
- Atodiad 3 Y berthynas rhwng cyfundrefnau cynllunio a rheoli ledled Cymru
- Atodiad 4 Cynlluniau a phrosiectau presennol yn nyfroedd Cymru ar gyfer pob sector ynni adnewyddadwy morol
- Atodiad 5 Crynodeb o garbon glas ym moroedd Cymru
- Atodiad 6 Map o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru
- Atodiad 7 Aseidiadau dangosol o gyflwr nodweddion lefel safle – ACA ac AGA gan gynnwys sgoriau hyder annatod (2018): dull gweithredu a chanlyniadau

Annex 1: Welsh Inshore and Offshore Marine Area

The inshore region in the map equates to the Welsh territorial waters, out to 12 nautical miles.

The offshore region represents the Welsh offshore zone out to the mid-line with neighbouring administrations. In this area, Welsh Government has jurisdiction for nature conservation, fisheries management, marine planning and some regulatory functions, with some of those regulatory functions being carried out by NRW.



Annex 2: NRW's Marine Remit

NRW has an extensive statutory marine remit covering territorial seas to 12 nm. Elements of marine work are embedded within all of NRW's functional areas, the most significant ones being advice, evidence and regulation. Further details are provided in the table below.


Within these broad functions, NRW also has a significant number of specific statutory functions that only apply in the marine environment. a few examples include: regulatory body for marine licensing (the broad equivalent of planning permission at sea); advice on designation and management of European marine sites and Marine Conservation Zones; delivery of key elements of the Marine Strategy Framework Directive; and advice on dispersant use in marine pollution incidences.

Key: **Dark grey shaded** activities have a direct statutory basis;
Light grey shaded activities are *in support* of delivery of statutory functions.

Categories of Activity	Examples of specific statutory functions (Note: this column is illustrative only, it is not an exhaustive list)
1. Technical and statutory advice to Welsh and UK Government, and EU on all marine legislation, plans, programme, strategies and assessments as they relate to Wales	<ul style="list-style-type: none"> • e.g. Statutory nature conservation advisor to Govt out to 12 nautical miles
2. Technical advice to others (not Govt) on marine plans, programme, strategies and assessments	<ul style="list-style-type: none"> • e.g. Advice to management authorities on conservation objectives and operations/activities for European marine sites and Marine Conservation Zones (MCZs)
3. Statutory consultee for planning, permits and nationally significant infrastructure projects; cradle to grave service	As activity. Includes consultee on some marine-specific authorisations.
4. Environmental planning - internal and external	<ul style="list-style-type: none"> • Production of River Basin Management Plans
5. Internal advice and guidance on 1-4 above.	
6. Marine licence determination and compliance	As activity
7. Other licences/permits (e.g. Sites of Special Scientific Interest (SSSI), protected species licence, Environmental Permitting Regulations etc.)	<ul style="list-style-type: none"> • European Protected Species licence (numerous marine EPS) • Radioactive materials/ship breaking out to 12nm • Regulating land-based discharges and pollution incidents out to 3nm
8. Direct fisheries management	<ul style="list-style-type: none"> • Regulating authority for Dee Estuary and Burry Inlet cockle fishery regulating order • Regulation of migratory fisheries out to 6nm

Categories of Activity	Examples of specific statutory functions (Note: this column is illustrative only, it is not an exhaustive list)
9. Harbour, navigation and lighthouse authority	<ul style="list-style-type: none"> • Dee conservancy function
10. Designation of, consents and assent for SSSI	As activity
11. Sample, measure, monitor and survey	<ul style="list-style-type: none"> • Water Framework Directive (WFD) monitoring • Bathing Waters monitoring
12. Data interpretation, assessment and modelling	
13. Statutory reporting – both NRW's, and in support of Government	<ul style="list-style-type: none"> • Marine input to SoNaRR • Habitats Directive Article 17 reporting in support of Govt duty • WFD • Marine Strategy Framework Directive reporting in support of Govt duty
14. Develop the evidence base to support Government and NRW programme delivery, alone and in partnership	
15. Data management	
16. Coastal flood risk planning and management	<ul style="list-style-type: none"> • Provision/maintenance of some sea defences
17. Respond to and advise on marine pollution incidences, and forward plan response	<ul style="list-style-type: none"> • Statutory advisor on the use of chemical dispersants in marine pollution incidents
18. Marine Conservation Zone direct management	
19. Work in partnership with stakeholders; develop relationships and partnerships; enabling others	
20. External funding and grants	

Annex 3: The relationship between planning and management regimes across Wales



The Natural Resources Policy extends across Wales out to 12nm and informs the content of the Welsh National Marine Plan. The NRP confirms the marine plan as a key mechanism to deliver the national priorities in the NRP in the marine area.

Similarly, on land the NRP informs the National Development Framework and Planning Policy Wales. The terrestrial planning framework extends to low water, whilst the marine planning framework extends to high water. This overlap in planning regimes encourages integrated planning and decision-making, as does the coverage of the NRP across the terrestrial and marine area.

Area Statements must facilitate the implementation of the NRP in the local context. For the marine area, a single marine area statement can support implementation of SMNR through the marine planning process.


Six terrestrial Area Statements share a coastal boundary with the marine Area Statement. This offers an additional mechanism for engaging with stakeholders on more local coastal and marine issues. Through working collaboratively to develop a suite of Area Statements, NRW can avoid duplication of effort and enable activity at the appropriate scale/ operational location to address issues.

Planning decisions on land are driven by Local Development Plans informed by the NDF/PPW. One role for terrestrial Area Statements is to provide additional information to inform the development of local planning and decision-making. At sea, where the WNMP guides all decision-making, the development of a marine area statement is an important opportunity to provide further evidence to support implementation of marine plan policies through regulatory processes that govern decision-making for the marine area.


Annex 4: Current plans and projects in Welsh waters for all marine renewable energy sectors

Sector	Project/Plan			Location	Scale (MW)
Floating Offshore Wind (FLOW)	Project Erebus			Celtic Sea	96 (Phased)
	Project Valorous			Celtic Sea	~300
	Falck Renewables (1 x Welsh Waters & 1 x English Waters)			Celtic Sea	TBC
	RWE renewables			Irish Sea	TBC
	Pembrokeshire Demonstration Zone			SW Pembrokeshire	TBC
Fixed Offshore Wind	BP/EnBW Round 4 projects x 2 (1 x Welsh Waters & 1 x English Waters)			Irish Sea	2 x 1500
	RWE Awel-y-Mor (Gynt-y-Mor extension)			Irish Sea	550
Tidal Range	Swansea Bay Tidal Lagoon (<u>N.B. Now deemed withdrawn as of 1st July</u>)			Swansea Bay	320
	Dragon Energy Island			Swansea Bay	~350
	Port of Mostyn lagoon			Dee Estuary	128
	Mersey Tidal lagoon			Mersey Estuary	TBC
Tidal stream	Nova innovation			Bardsey Sound	0.5 (Phased)
	TIGER project			Ramsey Sound	TBC
	Minesto array			Holyhead Deep	10 (Phased)
	Morlais tidal demonstration zone			Anglesey	240 (Phased)
Wave energy	Bombora mWave			SW Pembrokeshire	1.5
	Marine Energy Test Area Phase 1 & 2			SW Pembrokeshire	N/A
Energy Plans & programmes	UK Offshore Energy Plan			All Wales/UK	N/A
	WG Marine Energy Programme			All Wales	N/A
	Tidal Lagoon Challenge			All Wales	N/A
	The Crown Estate Round 4 plan			UK	N/A
	The Crown Estate strategic plan for FLOW			All Wales	N/A
Not in contact with NRW at present	Consented (discharge of conditions)	Under determination	Pre-application (NRW advisory only)	Pre-application (MLT only)	Pre-application (Advisory and MLT)

Annex 5: Summary of blue carbon in Welsh seas



Annex 6: Map of Marine Protected Areas in Wales



Annex 7: Indicative site-level feature condition assessments – SAC & SPA including integral confidence ratings (2018): approach and results

Producing full condition reports for marine protected sites and features is challenging due to availability of data and the time required to assessment multiple attributes. To address this challenge an innovative new approach was developed to provide a full suite of indicative site condition report for all marine SACs and SPAs. The approach used readily available evidence* and expert judgement in an intensive collective workshop process including site and feature specialist across NRW. The outputs provided an *indication* of the feature condition at site level, along with a confidence rating associated with the assessment. The reports actively inform NRW's management advice, SoNaRR and multiple other processes.

(*including long-term monitoring/surveillance datasets, sampling programmes, bathymetric data and datasets collected for Environmental Impact Assessments).

Indicative site-level feature condition assessments	Number	Percentage
Favourable / High confidence	40	31%
Favourable / Medium confidence	12	9%
Favourable / Low confidence	8	6%
Unfavourable / High confidence	33	26%
Unfavourable / Medium confidence	15	12%
Unfavourable / Low confidence	9	7%
Unknown	11	9%
Total	128	100%